

Yn amodol ar gymeradwyaeth yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Rhianta Corfforaethol

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

BWRDD RHIANTA CORFFORAETHOL

Cofnodion cyfarfod y Bwrdd Rhianta Corfforaethol a gynhaliwyd yn Swyddfeydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Y Pafiliynau, Cwm Clydach ddydd Llun 6 Tachwedd 2017.

Yn Bresennol

Y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol G. E. Hopkins – yn cadeirio

Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol:-

C. Leyshon, J. Rosser, R. Yeo, M. Weaver

Swyddogion oedd yn bresennol:-

Mr C. Jones – Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol

Mr G. Isingrini – Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant

Ms A. Batley – Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau i Blant

Ms G. Davies – Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Materion Mynediad, Ymgysylltu a Chynhwysiant

Ms J. Thomas – Rheolwr Materion Gwella Gwasanaethau, Ymgysylltu a Chwynion

Ms S. Edwards – Rheolwr Gwasanaeth

Mr C. Mann – Rheolwr y Garfan Adolygu

Ms J. Davies – Rheolwr Gwasanaeth, Materion Diogelu a Chymorth

Ms H. Williams – Uwch Swyddog Busnes Rheoleiddiol a Gweithredol

Eraill oedd yn bresennol:-

Ms J. Matthews – Rhwydwaith Maethu

Mr C. Turner – Rhwydwaith Maethu

Mr C. Dunn – Voices from Care Cymru

Ms A. Lewis – Voices from Care Cymru

Cynrychiolydd Pobl Ifainc – Voices from Care Cymru

Yn amodol ar gymeradwyaeth yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Rhianta Corfforaethol

22. CROESO AC YMDDIHEURIADAU

Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i groesawu'r Aelodau i'r cyfarfod a daeth ymddiheuriadau gan y Cynghorydd J. James, y Cynghorydd S. Rees-Owen a Ms E. Phipps-Magil.

Cyflwynwyd pawb o amgylch y bwrdd.

23. DATGAN BUDDIANT

Yn unol â'r Cod Ymddygiad, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

24. COFNODION A MATERION SY'N CODI

PENDERFYNWYD:

- a) Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Bwrdd Rhianta Corfforaethol, ar 25 Medi 2017, yn rhai cywir.

Cyfeiriodd y Cadeirydd yr Aelodau at gofnod rhif 16, lle amlinellwyd y penderfyniad i 'adrodd gwybodaeth am Ddarparwyr Lleoliadau Annibynnol ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal'. Eglurodd y Cadeirydd y byddai adroddiad yn cael ei gynnwys yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Ionawr i drafod yr opsiynau sydd ar gael wrth symud ymlaen.

25. NEWID I DREFN YR AGENDA

Newidiodd y Cadeirydd drefn yr agenda er mwyn i gynrychiolwyr y Rhwydwaith Maethu gael siarad yn gyntaf.

26. RHAGLEN MAETHU LLES

Rhoddodd cynrychiolwyr o'r Rhwydwaith Maethu, Mr C. Turner a Ms J. Matthews, wybodaeth i'r Bwrdd mewn perthynas â'r rhaglen beilot Maethu Lles a oedd yn cael ei chyflwyno mewn partneriaeth â Bwrdd Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Cwm Taf.

Esboniodd y cynrychiolwyr fod rhanbarth Cwm Taf yn ddigon ffodus i gael ei dewis ar gyfer y rhaglen dwy flynedd, wedi'i haddasu o Loegr, a fyddai'n gwella canlyniadau i blant yn yr ardal leol.

Eglurwyd y byddai tri chyfnod o bum dosbarth meistr mewn iaith hawdd ei deall, a fyddai'n dechrau ym mis Tachwedd 2017. Byddai'r dosbarthiadau'n cynnwys timau amlddisgyblaethol yn cydweithio i ddiwallu anghenion y plant.

Sicrhawyd aelodau'r Bwrdd y byddai gwaith y Rhaglen Lles yn ategu'r gwaith a oedd wedi'i wneud eisoes gan Cwm Taf, sy'n sail i egwyddorion Lles Cymdeithasol.

Yn amodol ar gymeradwyaeth yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Rhianta Corfforaethol

Mynegodd y Dirprwy Aelod o'r Cabinet ar faterion Plant a Phobl Ifainc bryderon ynglŷn â phresenoldeb yn y cyfarfodydd, gan ddweud na fyddai'r amserlenni yn caniatáu i'r rheiny sy'n cymryd rhan i fod yn bresennol ar y pum dyddiad. Dywedwyd wrth yr Aelod Cabinet y byddai'r tri chyfnod o sesiynau yn golygu y dylai'r rheiny sy'n cymryd rhan gael y cyfle i ddod i o leiaf un, ac y byddai sesiynau gyda'r hwyr ar gael i'r rheiny oedd angen dal i fyny.

Gofynnodd y Cadeirydd am gynaliadwyedd y rhaglen a'r bwriad ar ôl cwblhau'r rhaglen dwy flynedd. Esboniodd y swyddogion y byddai gwerthusiad annibynnol wedi'i gynnal gan Brifysgol Caerdydd mewn perthynas â lles a'i effaith ar addysg yn cyd-fynd â'r rhaglen ac y byddai modd rhoi tystiolaeth i Lywodraeth Cymru am gyllid hirdymor.

Aeth y swyddogion ymlaen i esbonio y byddai'r egwyddorion a ddysgwyd o'r rhaglen dwy flynedd yn cael eu haddasu a'u hymgorffori mewn gwaith pob dydd, waeth beth fo'r cyllid.

Canmolodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant ymdrechion y swyddogion a'u sicrhau y byddai'r Bwrdd yn rhoi arweiniad, pe bai angen.

Estynnwyd gwahoddiad i Aelodau'r Bwrdd i ymuno â'r dosbarthiadau meistr (neu arsylwi arny'n nhw) pe baen nhw'n dymuno gwneud hynny.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNWYD:**

- a) Nodi cynnwys yr adroddiad
- b) Byddai dyddiadau'r dosbarthiadau meistr yn cael eu rhoi i'r Aelodau Etholedig

27. **FFORWM GLASBRINT**

Nododd Mr C. Dunn, Voices from Care Cymru, fod Aelodau newydd yn bresennol ar y Bwrdd ers yr ymweliad diwethaf, a rhoddodd gyflwyniad byr am Voices from Care Cymru a'r gwasanaethau mae'n eu darparu.

Manteisiodd y Cynrychiolydd Pobl Ifainc ar y cyfle i drafod rhai o weithgareddau a chyflawniadau'r Fforwm Glasbrint dros y misoedd diwethaf:-

- **Ymgynghoriad Celfyddydau gyda Jessica Jenkins, Cydlynnydd Celfyddydau Ieuentid, RhCT** – Cafodd y bobl ifainc wybod am y cyfleoedd creadigol gwahanol oedd ar gael iddyn nhw yn lleol.
- **Gweithdy Bwrdd Iechyd Cwm Taf** – Cyfle i'r bobl ifainc roi adborth ar y gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan y GIG - beth oedd yn cael ei gynnal yn dda a beth oedd modd ei wella?
- **Sŵ Bryste** – Cyfle cymdeithasol i'r bobl ifainc
- **Cynadleddau Preswyl Erasmus** – Teithiau i Langrannog a Glan-llyn, lle aeth y bobl ifainc i ddwy Gynhadledd Genedlaethol ar Rianta Corfforaethol i drafod eu barn a'u syniadau

Yn amodol ar gymeradwyaeth yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Rhianta Corfforaethol

- **Côr** – Roedd y côr wedi cael ei sefydlu, nid yn unig ar gyfer y bobl ifainc, ond ar gyfer eu cynhalwyr hefyd, i ddod ynghyd, yn y gobaith y gallen nhw berfformio yng Ngŵyl y Llais Caerdydd yn y dyfodol
- **Alfie's Army** – Cymerodd pedwar person ifanc ran yng nghynhyrchiad y BBC Alfie's Army lle llwyddon nhw i gwblhau Hanner Marathon Caerdydd
- **Cwpan Pêl-droed Stryd Cymru i Fenywod** – Cymerodd merched o'r Fforwm Glasbrint ran yn eu cwpan pêl-droed cyntaf gydag eraill, a llwyddon nhw i fynd ymlaen i chwarae yng Nghwpan y Byd y Digartref.

Roedd y Bwrdd yn falch o glywed am lwyddiannau aruthrol y Fforwm Glasbrint.

Gofynnodd y Cadeirydd am adborth y bobl ifainc o Weithdy Bwrdd Iechyd Cwm Taf ac eglurwyd mai'r ddau faes roedden nhw o'r farn roedd modd eu gwella oedd cymorth ôl-ofal – gwasanaethau i bobl ifainc, a gwasanaethau iechyd meddwl.

Holodd un Aelod a oedd grwpiau ar gael yn RhCT sy'n cynnig cefnogaeth i bobl ifainc sydd â phroblemau iechyd meddwl. Rhoddodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Mynediad, Ymgysylltu a Chynhwysiant wybod i'r cynrychiolwyr bod gwasanaeth gwefan ar gael o'r enw 'WICID' sy'n rhoi cymorth, gwybodaeth ac arweiniad i bobl ifainc rhwng 11 a 25 oed.

Hysbyswyd y cynrychiolwyr hefyd am Is-grŵp Iechyd Meddwl i Blant a Phobl Ifainc sy'n cael ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Plant a Phobl Ifainc. Cytunodd yr Aelodau fod cyfeirio pobl i wasanaethau yn hynod o bwysig ac y byddai'n fuddiol i'r Is-grŵp gyfarfod â Voices from Care Cymru i glywed am eu hadborth mewn perthynas â gwasanaethau iechyd meddwl sydd ar gael yn yr ardal.

Holodd Rheolwr y Garfan Adolygu sut roedd RhCT yn cymharu ag Awdurdodau Lleol eraill o ran niferoedd sy'n cymryd rhan yn y Fforwm Glasbrint. Esboniodd Ms A. Lewis, er nad yw llawer o bobl ifainc wedi ymuno yn yr ardal leol, gallai hyn fod oherwydd nifer o ffactorau, megis eu dewis personol i beidio ag ymuno.

Amlygwyd y mater o gyfeirio unwaith eto, gyda swyddogion yn mynegi'r angen i hysbysebu straeon a chanlyniadau cadarnhaol i Weithwyr Cymdeithasol ac athrawon er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd sydd ar gael. Ychwanegodd y Dirprwy Aelod o'r Cabinet ar faterion Plant a Phobl Ifainc y dylai Penaethiaid Ysgolion gael eu hannog i ddirprwyo'r swyddogaeth cymorth allweddol ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal, i athrawon, er cysondeb mewn cyfarfodydd.

Trafododd cynrychiolwyr Voices from Care Cymru sut maen nhw'n bwriadu meithrin eu perthynas gyda'r Awdurdod Lleol. Trafodwyd fideos rhyngweithiol lle byddai Aelodau'r Bwrdd yn cael gweld mwy o'r bobl ifainc.

Ychwanegodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant yr hoffai fod yn rhan o waith Voices from Care Cymru i raddau mwy helaeth, a holodd a fyddai'r bobl ifainc o'r farn y byddai hyn o fudd. Dywedodd y cynrychiolwyr y bydden nhw'n cysylltu â'r bobl ifainc er mwyn pennu'r ffordd orau o gynnal sgysiau rheolaidd.

Yn amodol ar gymeradwyaeth yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Rhianta Corfforaethol

PENDERFYNWYD:

- a) Nodi cynnwys yr adroddiad
- b) Y byddai Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Mynediad, Ymgysylltu a Chynhwysiant yn rhoi manylion cyswllt Swyddog Ymgysylltu Ieuenctid y Cyngor i'r cynrychiolwyr Voices from Care Cymru

28. BWRDD RHIANTA CORFFORAETHOL – ADRODDIAD BLYNYDDOL 2016-17

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r Bwrdd roi sylwadau ar Adroddiad Blynyddol Drafft y Bwrdd Rhianta Corfforaethol ar gyfer 2016-17 a ddangoswyd gerbron yr Aelodau.

Cytunodd yr aelodau fod yr adroddiad yn cynnwys swm priodol o wybodaeth mewn perthynas â'r gwaith a gynhaliwyd yn 2016-17 a bod yr adroddiad yn amlinellu'r nodau ar gyfer y Flwyddyn Gyngor bresennol.

PENDERFYNWYD:

- a) Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol 2016/17 y Bwrdd Rhianta Corfforaethol ar gyfer ei gyflwyno i'r Cabinet.

29. DEILLIANNAU I BLANT SY'N DERBYN GOFAL YN RHONDDA CYNON TAF YN YSTOD Y FLWYDDYN ACADEMAIDD 2015/16.

Rhoddodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Mynediad, Ymgysylltu a Chynhwysiant yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am ddeilliannau addysgol Plant sy'n Derbyn Gofal yn RhCT yn ystod y flwyddyn academaidd 2015/16.

Dywedodd y swyddog fod yr adroddiad yn cynnwys data Lleol a Chenedlaethol. Serch hynny, doedd dim modd cymharu'r ddwy set o ddata gan fod y data Cenedlaethol yn mesur plant yn Rhondda Cynon Taf a'r tu allan iddi.

Cyfeiriwyd yr aelodau at dabl 2 yn yr adroddiad lle nodwyd y Plant sy'n Derbyn Gofal fesul 10,000 o'r boblogaeth. Roedd yr Aelodau'n falch o weld bod Rhondda Cynon Taf yn parhau'n gyson yn 2014-15 a 2015-16 gyda chynnydd o 0.81% yn unig. Holodd y Cadeirydd pam y bu cynnydd mor sylweddol mewn Awdurdodau Lleol eraill megis Blaenau Gwent, gyda'r swyddog yn esbonio nad oes rheswm uniongyrchol dros hyn gan fod nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal yn dibynnu ar sawl ffactor.

Cyfeiriwyd yr aelodau at dabl 4 yn yr adroddiad lle nodwyd canran y plant gyda thri neu ragor o leoliadau yn ystod y flwyddyn. Roedd yr Aelodau'n falch o weld bod RhCT yn cyfateb i 6% sef y lefel isaf ar gyfer Cymru.

Cyfeiriodd y swyddog at adran 4.6 o'r adroddiad lle dangoswyd mai dim ond 14% o'r 381 o blant mewn gofal a oedd o oedran ysgol statudol a symudodd ysgol mwy nag unwaith, lle nad oedd y symud oherwydd pontio. Ychwanegodd y swyddog ei bod hi'n bwysig nodi y gall newid ysgol fod yn gam cadarnhaol i'r person ifanc.

Yn amodol ar gymeradwyaeth yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Rhianta Corfforaethol

Aeth y swyddog ymlaen i gymharu'r canlyniadau arholiadau yng Nghyfnodau Allweddol 2, 3 a 4 yn 2015/16 â'r canlyniadau yn 2014/15. Roedd yr Aelodau'n falch o weld bod canlyniadau Cyfnod Allweddol 2 a 3 naill ai'r un peth â chyfartaledd Cymru gyfan, neu'n uwch, gyda chynnydd sylweddol yn y Dangosydd Pynciau Craidd yng Nghyfnod Allweddol 3.

Yn olaf, cyfeiriwyd yr Aelodau at dabl 7 yn yr adroddiad, lle nodwyd data presenoldeb. Esboniodd y swyddog y bu canran galonogol o 97.31% o ran presenoldeb ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal mewn ysgolion cynradd, a 94.25% ar gyfer y rheini sy'n mynychu ysgolion uwchradd. Roedd hi'n bleser hefyd nodi bod y cyfraddau gwahardd wedi gostwng ers cyhoeddi data yn 2014/15.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddog am ei hadroddiad cynhwysfawr, gan ddweud bod yr adroddiad yn gyffredinol yn dangos cynnydd ac yn amlygu meysydd a fyddai'n parhau i gael eu monitro, er enghraifft, Cyfnod Allweddol 4.

Trafodwyd yr angen i symud yr agenda ataliol yn ei blaen, yn unol â'r Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol, er mwyn atal agweddau ar fywyd y person ifanc rhag mynd allan o reolaeth ac effeithio ar rannau eraill o'i fywyd, megis addysg.

Cododd dadl mewn perthynas â'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) a pha gamau y byddai modd eu cymryd i'w wella. Dywedodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant ei bod hi'n hollbwysig i bob maes gwasanaeth gymryd camau ataliol i gefnogi Plant sy'n Derbyn Gofal yn gynnar yn eu bywydau.

Ychwanegodd y Person Ifanc y gallai gwasanaethau wella pe bai gan y bobl ifainc fwy o gyfleoedd i gymryd rhan.

Ar ôl trafod yn fanwl, **PENDERFYNODD** y Bwrdd:

a) Nodi'r wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn yr adroddiad.

30. ADRODDIAD BLYNYDDOL 2016/17 GWASANAETH MABWYSIADU CYDWEITHREDOL Y FRO, Y CYMOEDD, A CHAERDYDD

Cyfeiriodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Gwasanaethau i Blant yr Aelodau at Adroddiad Blynyddol Mabwysiadu Rhanbarthol 2016-17 ac egluro y byddai hyn yn cael ei gyflwyno mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifanc ar 8 Tachwedd, 2017.

Dywedodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant fod yr adroddiad yn gadarn a bod y pedwar Awdurdod Lleol yn gweithio ar y cyd i wella'r cynllun cyflawni.

Cytunodd aelodau'r Bwrdd fod nifer o faterion wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad, gan gynnwys y gostyngiad mewn recriwtio mabwysiadwyr ar adeg pan oedd yr angen yn cynyddu. Roedd y Bwrdd o'r farn bod angen aros am adborth gan y Pwyllgor Craffu.

Yn amodol ar gymeradwyaeth yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Rhianta Corfforaethol

PENDERFYNWYD:

a) Nodi cynnwys yr adroddiad.

31. ADRODDIAD Y SWYDDOG ADOLYGU ANNIBYNNOL

Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaeth, Diogelu a Chymorth yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol am waith gwasanaeth y Swyddog Adolygu Annibynnol.

Eglurwyd bod yr adolygiadau'n uchel mewn perthynas â niferoedd y Plant sy'n Derbyn Gofal. Serch hynny, roedd y Swyddogion Adolygu Annibynnol wedi bod yn gweithio y tu hwnt i ddyletswydd statudol ac roedden nhw'n dal i fod yn hyblyg gydag adolygiadau i ddiwallu anghenion y plant.

Eglurodd y Rheolwr Gwasanaeth mai'r bobl ifainc hŷn oedd yn gallu bod y mwyaf heriol o ran y cymorth sydd ar gael. Er enghraifft, gall y Swyddog Adolygu Annibynnol adolygu lleoliadau a fydd efallai ddim yn diwallu eu hanghenion i gyd oherwydd diffyg argaeledd.

Hysbyswyd aelodau'r Bwrdd o gamau nesaf Gwasanaeth y Swyddog Adolygu Annibynnol er mwyn gwella'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu ar gyfer pobl ifainc:-

- Byddai gwaith yn parhau i gael ei wneud gyda'r Gweithiwr Cymdeithasol a chyfranogiad pobl ifainc i wella cynlluniau gofal
- Cryfhau'r cyswllt rhwng y Swyddog Adolygu Annibynnol a'r bobl ifainc y tu allan i gyfarfodydd er mwyn eu hysbysu bod cymorth ar gael
- Gweithio i sicrhau bod yr un Swyddog Adolygu Annibynnol ym mhob cyfarfod gyda'r person ifanc.

Roedd y Bwrdd yn fodlon ar yr adroddiad cynhwysfawr a chanmolodd y Cadeirydd y camau sy'n cael eu cymryd i sicrhau bod ymagwedd gyson yn cael ei gweithredu gyda'r bobl ifainc.

D.S:- Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad yma, gadawodd y Cynghorwyr J. Rosser ac M. Weaver y cyfarfod.

32. GWASANAETHAU CYMDEITHASOL – CWYNION A CHANMOLIAETH

Rhoddodd Rheolwr Cwynion, Ymgysylltu a Gwella Gwasanaeth grynodeb i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol o'r trefnau gweithredu ac effeithiolrwydd gweithdrefn cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol statudol rhwng 1 Ebrill 2017 a 30 Mehefin 2017.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am nifer y cwynion a ddaeth i law, natur y cwynion, ac unrhyw wersi a ddysgwyd, yn ogystal â manylu ar ymholiadau gan Gynghorwyr, Aelodau Cynulliad ac Aelodau Seneddol a nifer y cwynion a ddaeth i law.

Yn amodol ar gymeradwyaeth yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Rhianta Corfforaethol

Dywedodd y swyddog fod cynnydd mewn cwynion anffurfiol wedi bod yn y chwarter cyntaf o'i gymharu â'r chwarter blaenorol, a'r rheswm mwyaf tebygol am hynny oedd achwynwyr afresymol a/neu barhaus. Hysbyswyd aelodau'r Bwrdd bod gwaith yn cael ei wneud er mwyn adnabod y bobl yma'n gynharach.

Eglurwyd y bu gostyngiad yn nifer y cwynion AC ac AS ac y byddai hyfforddiant yn cael ei gynnal ym mis Ionawr 2018 ar gyfer Aelodau Etholedig newydd, a ddylai, yn ei dro, gynyddu nifer eu cwynion sy'n dod trwy'r sianel briodol.

Ychwanegodd y swyddog fod nifer y cwynion sy'n dod i law mewn perthynas â gwasanaethau rheng flaen, er enghraifft, Hwb Diogelu Amlasiantaeth Cwm Taf, yn parhau i fod yn fach.

Canmolodd y Cadeirydd y Rheolwr Gwasanaeth a staff yr Uned Gwynion am eu goddefgarwch wrth ymdrin â chwynion anodd ac roedd yn falch o glywed bod y mwyafrif yn cael eu trin yn y cam anffurfiol.

PENDERFYNODD y Bwrdd:

a) Nodi cynnwys yr adroddiad.

33. GWASANAETH CENEDLAETHOL EIRIOLAETH IEUENCTID

PENDERFYNODD y Bwrdd:

a) Nodi cynnwys yr adroddiad.

34. CADW AELODAU O'R WASG A'R CYHOEDD ALLAN O'R CYFARFOD

PENDERFYNWYD bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, o dan Adran 100(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf, sef gwybodaeth ynglŷn ag unigolyn penodol. Bydd eglurder ymddygiad a gallu unigolion yn cael ei drafod a'i ystyried. Ystyrir, felly, fod budd y cyhoedd wrth gynnal yr eithriad yn troi'r fantol yn erbyn budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth, felly, oherwydd hynny, mae'n debygol na fydd y cyfarfod yn agored i'r cyhoedd.

35. ADRODDIAD AROLYGU AGGCC

Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaethau Preswyl yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am arolygiadau dirybudd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a gynhaliwyd yng nghartrefi plant Y Beddau, Bryndâr a Nant-gwyn rhwng Mehefin ac Awst 2017.

PENDERFYNWYD:

a) Nodi cynnwys yr adroddiad

Yn amodol ar gymeradwyaeth yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Rhianta Corfforaethol

36. ADRODDIADAU O DAN REOLIAD 32

Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaethau Preswyl yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am ymweliadau o dan Reoliad 32 wedi eu cynnal yn y tri chartref i blant – Y Beddau, Bryndâr, a Nant-gwyn.

Amlinellodd y swyddog grynodedb o ganlyniadau'r arolygiad. **PENDERFYNWYD:**

- a) Nodi cynnwys yr adroddiad

Daeth y cyfarfod i ben am 11:50am

**Y Cynghorydd G. Hopkins
Cadeirydd**